# Polisi Ymddygiad

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau, rydym yn addysgu am hawliau plant ond rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas – Cysylltiedig ag Erthyglau 3 a 12 (CRC)

## Polisi Ymddygiad

### Nodau a Disgwyliadau

Un o nodau allweddol ein hysgol yw bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi a'i barchu, ac y caiff pawb eu trin yn deg ac yn dda. Rydym yn gymuned ofalgar, ac adeiledir ein gwerthoedd ar ymddiriedaeth a pharch rhwng pawb. Felly, mae polisi ymddygiad yr ysgol wedi ei lunio i gefnogi'r ffordd y mae holl aelodau'r ysgol yn gallu byw a gweithio gyda'i gilydd mewn modd cefnogol. Nod y polisi yw hyrwyddo amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am hyrwyddo ymddygiad da.

Mae sawl rheol yn yr ysgol. Defnyddir y rhain fel ffyrdd i hyrwyddo perthnasoedd da er mwyn i bobl allu gweithio gyda'i gilydd â'r diben cyffredin o helpu pawb i ddysgu. Mae'r polisi yma yn cefnogi cymuned yr ysgol gan ganiatáu i bawb gydweithio mewn modd effeithiol ac ystyrlon.

Mae'r ysgol yn disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol ymddwyn mewn modd ystyrlon tuag at eraill.

Rydym yn trin pob plentyn yn deg ac yn defnyddio'r polisi ymddygiad hwn yn gyson.

Mae'r ysgol yn gwobrwyo ymddygiad da, gan ei bod yn credu y bydd hyn yn datblygu ethos o garedigrwydd a chydweithrediad. Diben y polisi hwn yw hyrwyddo ymddygiad da, yn hytrach nag atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn unig.

Mae gan athrawon yr hawl i addysgu, ac mae gan ddisgyblion yr hawl i ddysgu mewn ystafell ddosbarth heb ymddygiad aflonyddgar - ystafelloedd dosbarth sy'n adlewyrchu disgwyliadau ymddygiad yr athrawon ac sy'n creu awyrgylch lle gall hunanbarch disgyblion ffynnu.

### Rheolau 'Swyddogol' yr Ysgol

1. Byddwch yn falch o Ysgol Gymraeg Pontybrenin
2. Siaradwch Gymraeg
3. Gofalwch am bawb a phopeth
4. Parchwch eich amgylchedd
5. Symudwch yn synhwyrol

### Rheolau Cyffredinol yr Ysgol

1. Mae bwlio a hiliaeth yn ymddygiad annerbyniol ar bob adeg. Yn ffodus, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ein hysgol yn dangos agwedd ofalgar a chyfrifol.

2. Disgwylir i blant fod yn gwrtais ac yn barod i helpu ar bob adeg. Nid yw ymddygiad peryglus ac anghyfrifol, rhegi ac iaith anweddus yn dderbyniol.

3. Disgwylir i blant gerdded o gwmpas yr ysgol a gwneud lle neu ddal drysau ar agor i blant iau ac oedolion.

4. Sicrhau bod yr ysgol mor eco-gyfeillgar â phosib. Dylid rhoi sbwriel yn y biniau a ddarperir o amgylch yr ysgol. Rydym yn ailgylchu papur, cardbord a chartonau llaeth. Rydym yn diffodd trydan pan nad oes ei angen, yn compostio deunyddiau bioddiraddadwy, yn cau drysau ac yn diffodd tapiau ar ôl eu defnyddio.

5. Ni ddylai plant ddod â theganau na gemau (gan gynnwys peli) i'r ysgol, oni bai y ceir caniatâd arbennig i wneud hyn, e.e. fel rhan o brosiect yn y dosbarth. I bobl sy'n diystyru'r rheol hon, ni fydd yr ysgol yn gyfrifol os bydd eu heiddo'n diflannu neu os ydynt yn torri.

6. Ni chaniateir gwm cnoi, losin a lolipops yn yr ysgol.

7. Ni ddylai plant fod yn adeiladau'r ysgol cyn 8.40am (heblaw am y rheiny sy'n mynd i'r clwb brecwast), ar ôl i'r ysgol orffen (heblaw am y rheiny sy'n mynd i glybiau ar ôl ysgol) neu yn ystod amserodd chwarae, ac eithrio â chaniatâd arbennig.

8. Ni ddylai plant ddod i'r ysgol cyn 8.40am, oni bai eu bod yn mynd i'r clwb brecwast.

9. Disgwylir i blant newid eu dillad a'u hesgidiau ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol, Nofio a Champau.
A.G. Dan do: Siorts a chrys-T
A.G. Campau yn yr awyr agored: Mae'n rhaid newid dillad, neu ni chaiff plant gymryd rhan yn y wers.
* A.G. Ni chaniateir gwisgo gemwaith yn ystod gwersi A.G. a gwersi chwaraeon.

10. Os yw plentyn yn absennol, neu disgwylir y bydd yn absennol, mae'n rhaid cael esboniad gan rieni, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar. Ni chaniateir i blant adael yr ysgol ar eu pennau eu hunain yn ystod y diwrnod ysgol, oni bai fod rhieni wedi gwneud cais ysgrifenedig am hyn - mae hyn yn cynnwys amser cinio os yw'r plant yn aros yn yr ysgol i gael cinio fel arfer.

11. Dylai plant ddod â chynwysyddion na ellir eu torri ar gyfer diodydd. Ni chaniateir poteli gwydr. Ni chaniateir diodydd pefriog / pop.

**Gwobrau a Chosbau**
Rydym yn canmol ac yn gwobrwyo plant am ymddygiad da mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- athrawon yn llongyfarch plant;
- athrawon yn gwobrwyo plant â 'phwyntiau ymddygiad' bob dydd ar y cyd â'n siartiau ymddygiad a gaiff eu harddangos ym mhob ystafell ddosbarth;
- Bob dydd Gwener rydym yn cynnal "Gwasanaeth Gwobrwyo" lle caiff plant ym mhob dosbarth eu gwobrwyo am eu hymdrechion. Rydym yn rhoi tystysgrifau i blant, naill ai am ymddygiad neu waith da cyson, neu i gydnabod ymdrech ragorol neu weithredoedd o garedigrwydd yn yr ysgol.
- Mae goruchwylwyr amser cinio hefyd yn enwebu plant i dderbyn clod yn y Gwasanaeth Gwobrau.
- Bydd athrawon dosbarth yn rhannu gwobrau unigol (sticeri a stampiau yn y Blynyddoedd Cynnar) i gydnabod ymdrech, ymddygiad da etc.

Mae'r ysgol yn defnyddio system ymddygiad weladwy, gyda siartiau ym mhob dosbarth, sy'n amlinellu ymddygiad unigol drwy system cardiau lliwgar, h.y. cerdyn gwyrdd - ardderchog, cerdyn melyn - rhybudd cyntaf, etc. Defnyddir cosbau priodol i orfodi rheolau'r ysgol ac i sicrhau bod amgylchedd dysgu cadarnhaol a diogel yn yr ysgol. Byddwn yn dewis cosb sy'n briodol ar gyfer pob sefyllfa unigol.
Rydym yn disgwyl i blant wrando'n astud ar gyfarwyddiadau mewn gwersi. Os nad ydynt yn gwneud hyn, byddwn naill ai'n gofyn iddynt symud yn agosach at yr athro/athrawes neu'n eu symud i eistedd ar eu pennau eu hunain.
Rydym yn disgwyl i blant roi o'u gorau ym mhob gweithgaredd. Os nad ydynt yn gwneud hyn, gallwn ofyn iddynt ailwneud tasg.
Os yw plentyn yn amharu ar y dosbarth, bydd yn derbyn cerydd gan yr athro/athrawes. Os yw plentyn yn camymddwyn dro ar ôl tro, byddwn yn ei wahanu oddi wrth weddill y dosbarth nes y bydd yn tawelu ac yn barod i weithio'n synhwyrol gydag eraill eto.

Diogelwch y plant sydd bwysicaf ym mhob sefyllfa. Os yw ymddygiad plentyn yn peryglu diogelwch eraill, bydd yr athro dosbarth yn dod â'r gweithgaredd i ben ac yn atal y plentyn rhag cymryd rhan am weddill y sesiwn.

**Arfer Adferol**

Mae Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn rhoi ymagweddau adferol ar waith, a elwir hefyd yn Arfer Adferol, i greu amgylchedd dysgu cytûn lle mae disgyblion yn gallu rheoli eu hymddygiad eu hunain. Mae ymagweddau adferol i weld yn effeithiol iawn wrth wella ymddygiad a dysgu mewn ysgolion cynradd pan gaiff ei roi ar waith fel ymagwedd ysgol gyfan. Mae defnyddio ymagwedd adferol at reoli ymddygiad wedi helpu i leihau nifer yr achosion o ymddygiad gwael a geir.

Mae ymagweddau adferol yn seiliedig ar bedair nodwedd allweddol:

PARCH - at bawb drwy wrando ar farn eraill a dysgu i'w gwerthfawrogi
CYFRIFOLDEB - bod yn gyfrifol am eich gweithredoedd eich hun
ADFER - datblygu'r sgiliau angenrheidiol yng nghymuned yr ysgol er mwyn i'w haelodau unigol allu dod o hyd i ffyrdd i adfer niwed a sicrhau na chaiff ymddygiadau gwael eu hailadrodd
AILINTEGREIDDIO - gweithio drwy broses strwythuredig a chefnogol â'r nod o ddatrys y broblem a chaniatáu i bobl ifanc aros mewn addysg prif ffrwd

Os yw plentyn yn bygwth, yn brifo neu'n bwlio disgybl arall, bydd yr athro dosbarth yn rhoi'n strategaethau arfer adferol ar waith gyda'r ddau barti a chosbir y tramgwyddwr yn briodol.

Os yw plentyn yn ymddwyn mewn modd sy'n aflonyddu ar eraill neu'n peri gofid iddynt dro ar ôl tro, bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni'r plentyn ac yn ceisio trefnu apwyntiad er mwyn trafod y sefyllfa â'r nod o wella ymddygiad y plentyn.

Bydd yr athro dosbarth yn trafod rheolau a nodau'r ysgol â phob dosbarth. Yn ogystal â rheolau'r ysgol, bydd pob athro/athrawes yn defnyddio strategaethau a thactegau amrywiol i annog ymddygiad ac agwedd gadarnhaol yn ei ystafell ddosbarth. Trwy hyn, mae pob plentyn yn yr ysgol yn gwybod y safon o ymddygiad rydym yn ei ddisgwyl yn ein hysgol. Os oes achosion o ymddygiad amhriodol, bydd yr athro dosbarth yn trafod y rhain â'r dosbarth cyfan ar yr adeg gyfleus gyntaf.

Nid yw'r ysgol yn goddef bwlio o unrhyw fath. Os ydym yn canfod fod gweithred o fwlio neu frawychu wedi digwydd, byddwn yn gweithredu'n syth i atal unrhyw ddigwyddiadau eraill o ymddygiad o'r fath. Er ei bod hi'n anodd iawn cael gwared ar fwlio yn syth, byddwn yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau bod pob plentyn yn mynychu'r ysgol heb unrhyw ofid (gweler y polisi gwrth-fwlio).

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r defnydd o rym gan athrawon, fel y pennwyd yng Nghylchlythyr yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth 10/98, sy'n berthnasol i Is-adran 550A Deddf Addysg 1996: Y Defnydd o Rym i Reoli neu Atal Disgyblion. Bydd staff ond yn ymyrryd yn gorfforol i rwystro plant er mwyn atal niwed i blentyn, neu os yw plentyn mewn perygl o niweidio ei hun neu aelod o staff. Mae'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth/awdurdod lleol ar atal plant.

Mewn achosion mwy difrifol o gamymddygiad, disgwylir i rieni gymryd rhan mewn trafodaethau, cytundebau a chynlluniau ymddygiad ar gyfer ymddygiad eu plant yn y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn

cynnwys defnyddio cosbau difrifol, gan gynnwys achlysuron lle gallai fod yn angenrheidiol gwahardd plant o'r ysgol.

I fynd i'r afael â dysgu pwysig ar gyfer y cwricwlwm cymdeithasol, dylai athrawon atgoffa disgyblion yn rheolaidd beth yw ystyr y termau hyn a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae'r disgyblion wedi helpu i nodi'r camymddygiadau fel a ganlyn:

1. **YMLADD -** unrhyw gam-drin corfforol, a nodir ar y cyd fel:
   DWYLO/BREICHIAU – taro, pwnio, pinsio, gwthio, procio, tynnu gwallt, penelino, siglo eraill, codi eraill a'u gollwng.

   TRAED/COESAU – cicio, baglu, pen-glinio, stampio, sefyll ar fodiau traed.

   CEGAU - cnoi, poeri, cusanu.

   ARALL - bwrw, taro, dyrnu.

2. **CAM-DRIN GEIRIOL -** amharchu unrhyw ddisgybl neu oedolyn drwy ddefnyddio gwawdiau annymunol. Ystyrir rhegi fel mater sy'n haeddu cosb gref.

Dylid gwahardd 1 a 2 yng nghyd-destun chwarae. Ni chaniateir chwarae gweithgareddau penodol ar yr iard chwarae, megis *mob* a *British Bulldog*. Gofynnir i ddisgyblion roi gwybod i **unrhyw** oedolyn sy'n goruchwylio am broblemau neu bryderon megis cam-drin neu fwlio.

3. **DIFFYG PARCH AT EIDDO** – ni fydd cuddio neu ddifrodi eiddo plentyn arall, megis cuddio cotiau, taflu cotiau neu fagiau lawr y tŷ bach, cicio pêl yn bwrpasol allan o diroedd yr ysgol, yn cael ei ganiatáu. Mae'r un peth yn berthnasol i adeilad ac amgylchedd yr ysgol, megis cicio drysau, rhwygo gwaith sy'n cael ei arddangos, ymyrryd â bocsys bwyd, casys pensiliau etc. plant eraill neu ddwyn eitemau ohonynt. Dylid ymdrin ag achosion o ymyrryd â larymau tân a chyfarpar diffodd tân mewn modd difrifol a dylid cosbi'n briodol.

4. **TRESMASU AR ARDAL ANAWDURDODEDIG -** mae diogelwch a diogeledd pob plentyn yn ein gofal yn hollbwysig. Ni chaniateir dychwelyd i **ystafelloedd dosbarth** heb ganiatâd neu oruchwyliaeth. Ni ddylid gadael unrhyw ddisgybl mewn ystafell ddosbarth heb oruchwyliaeth. Gall disgyblion sy'n sâl eistedd yn y brif dderbynfa. Disgyblion sydd â chaniatâd penodol yn unig a gaiff aros yn yr ardal hon.

5. **GADAEL TIR YR YSGOL -** mae disgyblion sy'n gadael yr ysgol, heb ganiatâd a heb roi gwybod i rywun, yn rhoi eu hunain mewn perygl annerbyniol. Mae'n rhaid i ddisgyblion sy'n cael problemau yn ystod amseroedd chwarae neu ginio roi gwybod am eu trafferthion i'r oedolion goruchwylio sydd ar ddyletswydd, ac mae'n rhaid iddynt gymryd y problemau o ddifrif. Bydd athrawon eraill yn ymdrin â phryderon disgyblion os oes angen, ac fe'u cyfeirir at y Pennaeth os ydynt yn ddigon difrifol. Ni ddylai disgyblion adael y safle heb ganiatâd ar unrhyw adeg yn ystod y dydd i fynd adref at eu rhieni, perthnasau, ffrindiau, cymdogion etc. Caiff disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb awdurdod am ba resymau bynnag eu cosbi'n briodol. Byddwn yn ffonio'r rhieni a'r heddlu oherwydd ystyrir y plentyn fel person ar goll.

Os yw disgyblion yn dewis peidio â chydymffurfio â'r hyn a ddisgwylir ganddynt, neu'n gwrthod gwneud, dylent ddisgwyl y bydd yr ysgol yn cymryd camau gweithredu yn erbyn eu hymddygiad amhriodol. Mae'n well gennym fynegi ein cosbau fel canlyniadau. Yn sgîl hyn, bydd disgyblion yn dod i ddeall bod canlyniadau yn dilyn dewis. Felly gall disgyblion ddewis, neu beidio â dewis, canlyniad.

Caiff canlyniadau eu **dewis** ond os yw disgybl yn **dewis** torri rheolau'r ysgol a chynnwys ei hun mewn gweithredoedd neu ymddygiad amhriodol ac annerbyniol.

**Cynnwys disgyblion mewn ymddygiad cefnogol**
Mae gan yr ysgol Gynllun Cyfeillio ar waith yn ystod amseroedd egwyl i gefnogi disgyblion iau ar yr iard chwarae. Bydd Cyngor yr Ysgol, yn dilyn cyfarfodydd rheolaidd o'r 'cyngor dosbarth', yn rhoi adborth i staff am faterion sy'n codi ar yr iard. Bydd y Pennaeth a Chyngor yr Ysgol wedyn yn mynd ati i ymdrin â'r materion hyn yn ystod y gwasanaeth boreol.

**Rôl yr Athro Dosbarth**
Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am sicrhau y gorfodir rheolau'r ysgol yn ei ddosbarth a bod ei ddosbarth yn ymddwyn yn gyfrifol yn ystod y wers.

Mae gan yr athrawon dosbarth yn ein hysgol ddisgwyliadau uchel o'r plant o ran ymddygiad ac maent yn ymdrechu i sicrhau fod yr holl blant yn gweithio hyd eithaf eu gallu.

Bydd yr athro dosbarth yn trin pob plentyn yn deg ac yn gorfodi strategaethau'r ystafell ddosbarth yn gyson. Bydd yr athrawon yn trin pob plentyn yn eu dosbarth â pharch a dealltwriaeth.

Os yw plentyn yn camymddwyn yn y dosbarth, bydd yr athro dosbarth yn cofnodi hyn ar y siart ymddygiad. Bydd hyn yn berthnasol ar gyfer y rhybudd cyntaf (cerdyn melyn) a'r ail rybudd (cerdyn coch). Os bydd plant yn cael y cardiau hyn, byddant yn colli rhan o'u hamser chwarae, neu'r cyfnod cyfan. Fodd bynnag, os bydd y camymddygiad hwn yn parhau ac os bydd y plentyn yn cyrraedd y cerdyn nesaf ar y siart, y cerdyn "cwmwl du", bydd y pennaeth yn cael gwybod. Bydd y pennaeth wedyn yn penderfynu, fesul achos, ar gosb briodol ar gyfer y plentyn hwnnw, a fydd fel arfer yn cynnwys cysylltu â rhieni'r plentyn ac o bosib eu gwahodd i'r ysgol er mwyn trafod y mater.
Mae'r ysgol yn credu'n gryf fod pob diwrnod yn cynrychioli dechrau newydd i'r plant, felly bydd pob plentyn yn cychwyn pob diwrnod â cherdyn gwyrdd (ymddygiad rhagorol) ni waeth pa gerdyn oedd ganddynt ar ddiwedd y diwrnod blaenorol.

Os yw ymddygiad plentyn yn parhau i fod yn heriol am gyfnod bydd yr athro dosbarth, drwy'r SENCO, yn gweithio ag asiantaethau allanol i gefnogi ac arwain cynnydd y plentyn hwnnw.

Bydd yr athro dosbarth yn adrodd i rieni ar gynnydd pob plentyn yn ei ddosbarth, yn unol â pholisi'r ysgol gyfan. Bydd yr athro dosbarth hefyd yn cysylltu â rhiant os oes pryderon ynglŷn ag ymddygiad neu les plentyn.

**Rôl y Pennaeth**
Y Pennaeth, o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi ymddygiad cadarnhaol yn gyson ar draws yr ysgol a rhoi adborth i lywodraethwyr, ar gais, am effeithiolrwydd y polisi. Y Pennaeth sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob plentyn yn yr ysgol.

Bydd y Pennaeth yn cefnogi'r staff drwy roi'r polisi ar waith, pennu safonau ymddygiad a chefnogi staff i ddefnyddio'r polisi.

Mae'r Pennaeth yn cadw cofnod o bob achos difrifol o gamymddwyn y rhoddir gwybod amdano.

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am roi gwaharddiad cyfnod penodol i blant unigol am achosion difrifol o gamymddwyn. Am achosion difrifol iawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu am achosion niferus, gallai'r Pennaeth wahardd plentyn yn barhaol. Mae'r camau gweithredu hyn yn unol â chanllawiau'r awdurdod.

**Rôl Rhieni**
Mae'r ysgol yn cydweithio â rhieni fel bod plant yn derbyn negeseuon cyson o ran sut i ymddwyn gartref ac yn yr ysgol.

Rydym yn cyfeirio at reolau a nodau'r ysgol yn y Cytundeb Ysgol Cartref ac rydym yn disgwyl i rieni ddarllen y rhain a'u cefnogi.

Rydym yn disgwyl i rieni gefnogi dysgu eu plentyn, a chydweithio â'r ysgol. Rydym yn ymdrechu i feithrin deialog gefnogol rhwng y cartref a'r ysgol, ac rydym yn rhoi gwybod i rieni ar unwaith os oes gennym bryderon am les neu ymddygiad eu plentyn.

Os oes rhaid i'r ysgol ddefnyddio cosbau rhesymol i gosbi plentyn, dylai rhieni gefnogi camau gweithredu'r ysgol. Os oes ganddynt unrhyw bryderon am y ffordd y cafodd eu plentyn ei drin, dylent gysylltu â'r athro dosbarth i ddechrau. Os yw'r pryder yn parhau, dylent gysylltu â'r pennaeth. Os na all y trafodaethau hyn ddatrys y broblem, gellir gweithredu proses gwyno neu apelio ffurfiol. (Gweler y polisi cwynion).

**Rôl y Llywodraethwyr**
Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am bennu'r canllawiau cyffredinol hyn ar gyfer safonau disgyblaeth ac ymddygiad, ac am adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r Pennaeth wrth roi'r canllawiau hyn ar waith.
Mae gan y Pennaeth yr awdurdod o ddydd i ddydd i weithredu polisi ymddygiad cadarnhaol yr ysgol, ond gallai'r llywodraethwyr roi cyngor i'r Pennaeth am faterion disgyblu penodol. Mae'n rhaid i'r Pennaeth ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau am faterion ymddygiad.

**Gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol**
Y Pennaeth (neu'r Pennaeth Gweithredol) yn unig sydd â'r pŵer i wahardd disgybl o'r ysgol. Gallai'r Pennaeth wahardd disgybl am un cyfnod penodol neu fwy, am hyd at 45 niwrnod mewn un flwyddyn ysgol. Gallai'r Pennaeth wahardd disgybl yn barhaol hefyd. Mae hefyd yn bosib i'r Pennaeth newid gwaharddiad cyfnod penodol yn waharddiad parhaol, os yw'r amgylchiadau'n gwarantu hyn.

Os yw'r Pennaeth yn gwahardd disgybl, bydd yn rhoi gwybod i'r rhieni ar unwaith gan roi rhesymau dros y gwaharddiad. Ar yr un pryd, bydd y Pennaeth yn egluro i'r rhieni y gallant apelio yn erbyn y penderfyniad i'r corff llywodraethu, pe dymunant wneud hynny. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni sut i wneud apêl o'r fath.

Mae'r pennaeth yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol a'r corff llywodraethu am unrhyw waharddiad parhaol, ac am unrhyw waharddiadau cyfnod penodol sy'n fwy na phum niwrnod mewn un tymor.

Ni all y corff llywodraethu ei hun wahardd disgybl nac estyn y cyfnod gwahardd a bennir gan y Pennaeth.

Mae gan y corff llywodraethu bwyllgor disgybl sy'n cynnwys rhwng tri neu bum aelod. Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried unrhyw apeliadau ar waharddiadau ar ran y llywodraethwyr.

Pan fydd panel apeliadau yn cwrdd i ystyried gwaharddiad, bydd yn ystyried yr amgylchiadau lle y gwaharddwyd y disgybl, unrhyw sylwadau gan y rhieni a'r AALl ac a ddylai'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol.

Os yw panel apeliadau'r corff llywodraethu yn penderfynu y dylai disgybl ddychwelyd i'r ysgol, mae'n rhaid i'r Pennaeth gydymffurfio â'r penderfyniad hwn.

**Monitro**
Mae'r Pennaeth yn monitro effeithiolrwydd y polisi hwn yn rheolaidd. Mae hefyd yn adrodd ar effeithiolrwydd y polisi i'r corff llywodraethu ac, os oes angen, yn gwneud argymhellion ar gyfer rhagor o welliannau.

Mae'r ysgol yn cadw amrywiaeth o gofnodion parthed achosion o gamymddwyn. Mae'r athro dosbarth yn cofnodi digwyddiadau llai difrifol yn y dosbarth. Mae'r Pennaeth yn cofnodi'r achosion hynny pan gaiff plentyn ei anfon ato oherwydd ymddygiad gwael. Rydym hefyd yn cadw cofnod o unrhyw ddigwyddiadau sy'n codi yn ystod amser chwarae neu amser cinio.

Mae'r Pennaeth yn cadw cofnod o unrhyw ddisgybl a gaiff ei wahardd am gyfnod penodol neu'n barhaol.

Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro'r gyfradd waharddiadau a sicrhau y caiff polisi'r ysgol ei weithredu'n deg ac yn gyson.

**Cyfle Cyfartal ac Anabledd**
Fel rhan o'n nod trosgynnol i ddisgyblion gyflawni eu potensial ar draws y cwricwlwm, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod yr holl blant yn cael y gefnogaeth angenrheidiol yn y maes hwn, yn unol â'n cynllun cyfle cyfartal ac anabledd.

| **Mabwysiadu'r Polisi** |
| --- |
| Dyddiad Adolygu gan y Corff Llywodraethu: 21/11/23 |
| Dyddiad cadarnhau a chymeradwyo gan y Corff Llywodraethu llawn: 21/11/23 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |